**Y Pwyllgor Busnes** **BC56-02(Terfynol)**

**COFNODION Y CYFARFOD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 9 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell A3.13 |
| **Yn bresennol:** | John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)<br>Andrew Davies, Trefnydd y Cynulliad<br>Helen Mary Jones, Plaid Cymru<br>Jonathan Morgan, y Ceidwadwyr<br>Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol |
| | Paul Silk, Clerc y Cynulliad<br>David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd<br>Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)<br>Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes<br>Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad<br>Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr<br>Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd<br>Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda) |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Helen Mary Jones fel cynrychiolydd Plaid Cymru yn absenoldeb Jocelyn Davies, yn unol â Rheol Sefydlog 13.3; a Marc Wyn Jones, a oedd yn ddirprwy ar ran Adrian Green o'r Ysgrifenyddiaeth.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

### (i) BC36-02 (Terfynol) dydd Mawrth 5 Chwefror 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC42-02 (Drafft) dydd Mawrth 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Awgrymwyd mân newid a fyddai'n cael ei ymgorffori yn y fersiwn derfynol, i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 4 Materion sy'n codi (BC56-02 dydd Mawrth 12 Chwefror 2002)

3.1 **Paragraff 3.3** Gofynnodd Helen Mary Jones a fyddai'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cyflwyno unrhyw orchmynion

arfaethedig sy'n ymwneud â physgodfeydd môr i'r pwyllgor pwnc. Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi trosglwyddo'r cais hwn i'r Gweinidog, a'i fod yn disgwyl ei ateb.

## 4 Is-ddeddfwriaeth

### (a) Gorchmynion i'w hystyried

- Gorchymyn Diddymu Pwyllgor Ymgynghorol dros Gymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) 2002 (BC44-02)
- Gorchymyn Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2002 (BC45-02)
- Gorchymyn Gwerth Gorau Llywodraeth Leol (Hepgor Ystyriaethau Anfasnachol) (Cymru) 2002 (BC46-02)
- Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002 (BC47-02)
- Rheoliadau Strwythurau Pysgodfeydd a Dyframaethu (Grantiau) (Cymru) 2002 (BC48-02)
- Rheoliadau Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol ar gyfer Monitro â Lloeren) (Cymru) 2002 (BC49-02)
- Gorchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a'u Glanio) (Cymru) 2001 (BC50-02)
- Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002 (BC51-02)
- Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC52-02)
- Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2002 (BC53-02)

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapurau BC44-02 i BC53-02, a oedd yn darparu cyngor ar sut i ymdrin â'r gorchmynion hyn.

4.2 BC44-02 - BC51-02

Roedd fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol a oedd yn ategu BC46-02 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod. Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn pryderu y gallai aelodau fod mewn sefyllfa lle nad oeddynt yn ymwybodol eu bod yn ystyried papurau a oedd wedi'u diwygio. Cytunwyd y byddai teitlau papurau diwygiedig yn y dyfodol yn nodi eu statws diwygiedig. Gofynnodd y

Dirprwy Lywydd i'r penderfyniad hwn gael ei drosglwyddo i'r swyddogion sy'n drafftio papurau i'r Pwyllgor Busnes.

Nodwyd nad oedd targed y Llywodraeth o gyhoeddi Gorchmynion drafft ar y Fewnrwyd ddeng niwrnod cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes wedi'i gyrraedd yn achos BC47-02. Cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig bod Gorchmynion drafft ar gael ddau benwythnos cyn y cyfarfod perthnasol, a bod yr amod hwn wedi'i fodloni. Serch hynny, byddai'r targed yn parhau'n ddeng niwrnod gwaith o rybudd.

Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynigion i beidio ag anfon y Gorchmynion drafft at bwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai'r holl orchmynion ddilyn y weithdrefn garlam, ac eithrio BC47-02 a ddylai ddilyn y weithdrefn safonol. **Gan hynny, dyfarnodd y Dirprwy Lywydd na fyddai'n rhaid cyfeirio'r Gorchmynion hyn at bwyllgor pwnc.**

<u>BC52-02 & BC53-02</u>

Gofynnodd Helen Mary Jones a Jonathan Morgan i'r Gorchmynion hyn gael eu cyfeirio ar bwyllgor pwnc. Nododd Andrew Davies a Peter Black fod angen dod â'r ddeddfwriaeth i rym erbyn y flwyddyn ariannol nesaf.
**Gan hynny, dyfarnodd y Dirprwy Lywydd y dylid cyfeirio'r Gorchmynion hyn at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gorchmynodd y dylai'r Pwyllgor adrodd ar y ddau ddrafft o fewn tair wythnos.**

**<u>(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol</u>**

4.4 Dosbarthodd y Dirprwy Lywydd gopi o Ddatganiad a wnaed ar 5 Chwefror gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Rhaglen Is-ddeddfwriaeth ar gyfer Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru; ynghyd â chopi o e-bost ynghylch nifer o Orchmynion amaethyddiaeth a wnaed o dan y weithdrefn Weithredol ac a anfonwyd at bob Aelod gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet. Nid oedd y naill ddogfen na'r llall yn rhoi rheswm dros ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol, a gofynnodd i Drefnydd y Cynulliad esbonio'r sefyllfa. Dywedodd y Trefnydd y byddai llythyr ynghylch defnyddio'r weithdrefn Weithredol ar gyfer y Gorchmynion amaethyddiaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Busnes. Serch hynny, nid rôl y Pwyllgor Busnes oedd craffu ar y rhesymau pam fod y Cabinet yn defnyddio'r weithdrefn Weithredol. Roedd papurau a gyflwynwyd gynt i'r Pwyllgor gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Clerc yn cefnogi'r farn hon. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod gwahaniaeth rhwng derbyn gwybodaeth a chynnal trafodaeth sy'n cynnwys craffu ar fater. Ailadroddodd y Trefnydd ei ymrwymiad y byddai'r Weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Dywedodd Peter Black y gellid bod wedi craffu ar resymau Jane Hutt dros ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol yn ystod ei datganiad yn y Cyfarfod Llawn. Nododd hefyd fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynnal trafodaethau estynedig ynghylch goblygiadau'r rhaglen ddeddfwriaeth i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

4.5 Dywedodd Jonathan Morgan ei fod yn pryderu bod peth is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Ddeddf Safonau Gofal yn cael eu gwneud trwy'r weithdrefn Weithredol a gorchmynion eraill trwy'r weithdrefn Safonol, heb unrhyw reswm yn cael ei chynnig am y dulliau gwahanol o ymdrin â'r gorchmynion. Roedd o'r farn nad oedd diffyg amser yn esboniad digonol ar gyfer defnyddio'r weithdrefn Weithredol. Dywedodd Helen Mary Jones fod y Weithrediaeth mewn perygl o greu sefyllfa lle byddai Aelodau yn cyflwyno cynigion diddymu i Orchmynion, ac y byddai hyn yn anffodus pe digwyddai dim ond o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth ddigonol. Roedd gwahaniaeth amlwg rhwng dadleuon ar egwyddor deddfwriaeth, fel yn achos y ddadl ddiweddar ar y Ddeddf Safonau Gofal, ac ystyried Gorchmynion drafft, sy'n hanfodol os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynd i weithredu fel corff deddfwriaethol go iawn.

4.6 Dywedodd Peter Black mai'r pwyllgorau pwnc oedd y fforwm briodol ar gyfer trafod deddfwriaeth, ac y byddai argymhellion Adolygiad y Cynulliad o Weithdrefnau yn galluogi iddynt wneud hynny'n effeithiol. Cytunodd y Dirprwy Lywydd. Serch hynny, roedd o'r farn bod diffyg unrhyw esboniad am ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol ar gyfer hyd at 40 o Orchmynion sy'n deillio o'r Ddeddf Safonau Gofal yn gamddefnydd o bwer ar ran y Weithrediaeth. Roedd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol fod mewn sefyllfa lle y gallai farnu a oedd y Weithrediaeth yn cyflawni ei swyddogaethau'n briodol ai peidio. Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at gadeiryddion y pwyllgorau pwnc perthnasol yn gofyn iddynt holi eu Gweinidogion ynghylch defnyddio'r weithdrefn Weithredol yn yr achosion hyn. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n hysbysu'r Gweinidogion o dan sylw am bryderon y Pwyllgor Busnes ynghylch y darnau hyn o ddeddfwriaeth. **Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd**

## 5. Cyngor i'r Cynulliad am weithdrefnau

Y Weithdrefn ar gyfer Teyrngedau a Datganiadau o Gydymdeimlad (BC243-01)

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC243-01, yr oedd y Rheolwyr Busnes wedi'i drafod gyda'u grwpiau. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- mynegwyd pryder y gellid cynnig gwelliant i gynnig o gydymdeimlad.

- gallai pleidlais ar y fath gynnig fod yn anurddasol.

- fel dewis arall, gallai'r Llywydd wneud datganiad, a'i ddilyn gan y Prif Weinidog, arweinwyr y pleidiau eraill ac ACau eraill fel sy'n briodol.

- ni fyddid fel arfer yn galw'r Cynulliad yn ôl yn y fath achos, ond dylai'r weithdrefn ar gyfer galw'r Cynulliad yn ôl fod mor hyblyg â phosibl. Dylid gwneud penderfyniad i alw'r Cynulliad yn ôl yng ngoleuni'r amgylchiadau penodol, a dylai adlewyrchu barn y cyhoedd ledled Cymru.

- dylid gwahaniaethu rhwng Pennaeth y Wladwriaeth ac aelodau uwch eraill o'r Teulu Brenhinol wrth benderfynu galw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei ôl ai peidio.

- roedd y weithdrefn a ddilynwyd yn dilyn marwolaeth Val Feld yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Cytunwyd i ddiwygio'r gweithdrefnau er mwyn adlewyrchu'r pwyntiau hyn, i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

## 6. Y Pwyllgorau

- Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar Nantygwyddon.

6.1 Dywedodd y Trefnydd y byddai'r cynnig arfaethedig i drafod adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar ei Ymchwiliad i Safle Tirlenwi Nantygwyddon yn anghyson o ran gweithdrefnau. Y weithdrefn arferol oedd bod adroddiadau Pwyllgorau yn cael eu trafod ar sail cynnig "i nodi". Serch hynny, roedd yr adroddiad hwn wedi deillio o ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor ar ran y Cynulliad. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor eisiau cyflwyno cynnig yn gofyn i'r Cynulliad weithredu ar ei argymhellion.

6.2 Nododd yr aelodau y gwahaniaeth rhwng adroddiad arferol gan bwyllgor ac adroddiad a luniwyd gan Bwyllgor ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nododd y Clerc na ellid diwygio cynigion sy'n cynnig dadl ar adroddiadau pwyllgorau, o dan Reol Sefydlog 6.5. Gofynnodd Helen Mary Jones a fyddai'n bosibl cael cynnig 'i nodi' a chynnig ar wahân gan y Llywodraeth. Dywedodd y Dirprwy Lywydd mai mater i'r Llywodraeth a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth oedd hynny. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ymgynghori â Chadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, ac yn dosbarthu cynnig drafft at aelodau'r Pwyllgor Busnes cyn diwedd yr wythnos.

## 7. Busnes arfaethedig

### Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC54-02, a oedd yn rhoi manylion y busnes y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Trefnydd y byddai Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn gwneud datganiad am Galedi Myfyrwyr, yn ychwanegol at y busnes a amserlenwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw. Ddydd Iau 14 Chwefror 2002, byddai Jane Davidson hefyd yn gwneud datganiad am y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth.

### Y Datganiad Busnes Drafft

7.3 Gofynnodd Helen Mary Jones a ellid neilltuo amser yn y Cyfarfod Llawn i drafod llythyr Prif Weindiog Prydain at Brif Weinidog Romania ynghylch y

ffaith bod miliwnydd o India, a oedd wedi cyfrannu arian at y Blaid Lafur, wedi prynu ffatri ddur, gan bod y mater yn ymwneud â Corus.  Dywedodd y Trefnydd y byddai'n trafod y cais gyda Phrif Weinidog Cymru.

7.4 I ddilyn ei gais blaenorol am ddadl ar y Mesur Addysg, nododd Jonathan Morgan fod rhai cymalau yn y Mesur yn darparu "cyfarwyddiadau" ynghylch is-ddeddfwriaeth nad oedd yn caniatáu unrhyw ryddid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.  Gofynnodd a oedd cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y cymalau hyn.  Dywedodd y Trefnydd y byddai'n trafod y cais gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

7.5 Cyngor y Pwyllgor i Drefnydd y Cynulliad o ran ei gynnig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau dydd Mawrth 26 Chwefror, dydd Mawrth 5 Mawrth, a dydd Mawrth 12 Mawrth oedd y dylai fynd rhagddo fel yr amlinellwyd.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn**

**9.  Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

11.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod e-bost wedi'i anfon at yr Aelodau yn egluro'r amserlen ar gyfer gwneud cais i siarad yn y Siambr.  Dylid gwneud pob cais i Swyddfa'r Llywydd mewn da bryd cyn y Cyfarfod Llawn.   Gallai Aelodau hefyd wneud cais yn ystod y Cyfarfod Llawn trwy anfon e-bost at y Cadeirydd.

11.2 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa'r Aelodau o'r ddau opsiwn pan yn tynnu cwestiwn llafar ar gyfer Cyfarfod Llawn yn ôl. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y gellid un ai tynnu'r cwestiwn yn ôl, neu ei drosglwyddo am ateb ysgrifenedig.  Mae'r canllawiau cyfredol yn nodi y dylai'r Aelodau hysbysu'r Swyddfa Gyflwyno unrhyw bryd cyn dechrau'r Cyfarfod Llawn. Nododd y Dirprwy Lywydd fod Swyddfa'r Llywydd yn ystyried newid y canllawiau er mwyn caniatáu i'r Aelodau dynnu cwestiynau yn ôl ar unrhyw adeg.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**